



14–16 oed

Cyflwyno'r newyddion: Diwteriwm metelig sy'n cael ei ffurfio ar wasgedd uchel



Education
Inspiring your teaching and learning

Wedi'i lawrlwytho o rsc.li/4tLLlxT, taflen i fyfyrwyr, mae nodiadau i athrawon gydag atebion a thempled sgript, hefyd ar gael.



Y dasg

Yn eich grwpiau, paratowch i gyflwyno'r newyddion am ymchwil gwyddoniaeth fel eitem ar raglen newyddion. Defnyddiwch y templed sgript i'ch helpu.



Mae gennych bum munud ar gyfer y cyflwyniad.

Mae angen i bawb ddweud rhywbeth yn ystod y 'darllediad'. Bydd gennych y rolau canlynol yn eich grŵp:

1. cyflwynydd newyddion – yn cyflwyno'r stori
2. gohebydd – yn rhoi rhagor o fanylion
3. gwyddonydd/gwyddonwyr – yn ateb cwestiynau.

Role	What to communicate	Your script
News anchor	Introduce the discovery in one sentence.	
News anchor	Explain why this discovery might be important.	
News anchor	Introduce your classroom reporter who will provide more information.	
Reporter	Briefly explain the context – the difference between metals and non-metals, and what the scientists have done.	
Reporter	In one sentence, introduce the scientists and who you are interviewing them.	
Reporter	Ask the scientist to explain what they did.	
Scientist	Answer the first question.	
Reporter	Ask why being able to make deuterium isn't like a metal is important or useful.	
Scientist	Respond to the question.	

© 2021 Royal Society of Chemistry 2





Beth mae angen i'r cyflwynydd newyddion ei wneud


- Cyflwynwch yr eitem newyddion ac eglurwch yn syml pa broblem roedd y gwyddonwyr yn ceisio ei datrys, neu i beth roeddent yn ceisio ymchwilio.
- Gweithiwch gyda'ch grŵp i wneud yn siŵr nad yw'r cyflwyniad cyfan yn para mwy na phum munud. Trafodwch faint o amser y dylai pob rhan ei gymryd.
- Dewch â'r eitem newyddion i ben ar ôl i bawb yn y fîm orffen. Rhowch ddatganiad i gloi mewn ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddweud. I gael ysbrydoliaeth, dychmygwch deimladau posibl eich ffrindiau neu eich teulu wrth glywed yr eitem newyddion.





Beth mae angen i'r gohebydd ei wneud


- Ar ôl i'r cyflwynydd newyddion siarad, dywedwch ragor wrth y gynulleidfa am y broblem roedd y gwyddonwyr yn ceisio ei datrys.
- Gofynnwch gwestiynau i'r gwyddonydd er mwyn i'r gynulleidfa ddysgu am eu darganfyddiad. Meddyliwch beth byddai'r gynulleidfa yn dymuno ei wybod. Edrychwch ar yr awgrymiadau yng nghanam 6 eich taflen waith.
 - Canfyddiadau
 - Cyd-destun
 - Perthnasedd/cymhwyso
 - Effaith
- Wrth ymarfer gyda'ch grŵp, ceisiwch ymateb i'r hyn mae'r gwyddonydd yn ei ddweud, yn hytrach na dim ond darllen eich cwestiynau.





Beth mae angen i'r gwyddonydd ei wneud

- Pan fydd y gohebydd yn gofyn cwestiynau i chi, rhowch atebion clir y bydd eich cyd-ddysgwyr yn eu deall.
- Darllenwch y testun yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw'r prif syniadau. Edrychwch ar yr awgrymiadau yng nghanam 6 eich taflen waith.
 - Canfyddiadau
 - Cyd-destun
 - Perthnasedd/cymhwysio
 - Effaith
- Os oes unrhyw eiriau o'r testun yn ymddangos yn anodd, meddyliwch am eiriau symlach i'w hegluro.
- Siaradwch â'ch grŵp ynghylch a allai lluniau neu ddiagramau helpu'r gynulleidfa i ddeall yn well. Os ydych yn penderfynu eu defnyddio, dewch o hyd iddynt a'u cyflwyno.



Sut beth yw cyflwyniad newyddion da?

Mewn cyflwyniad da...

- mae dechrau, canol a diwedd clir
- mae pawb yn cael cyfle i siarad, a phan maent yn gwneud hynny, maent yn cael eu cyflwyno a diolchir iddynt am eu cyfraniad
- mae'n amlwg bod y cyfranogwyr wedi ystyried anghenion a diddordebau eu cynulleidfa
- mae'n gorffen ar amser (cofiwch fod gan bob grŵp bum munud i siarad)

Wrth siarad...

- byddwch yn glir
- byddwch yn ddigon uchel
- edrychwch ar y gynulleidfa
- defnyddiwch eiriau y bydd y gynulleidfa'n eu deall
- edrychwch a siaradwch yn hyderus (hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo'n hyderus eto)